**EITEM AGENDA: 13**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 21 Mawrth 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Diweddaru'r aelodau ar y cynnydd sydd ar droed o ran sefydlu Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Ngogledd Cymru. |

1. **RHAGARWEINIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran sefydlu a datblygu'r Gymdeithas ac yn nodi'r ystyriaethau i'r dyfodol.

2. **CEFNDIR**

2.1 Menter Diogelwch Tân Cymunedol yw Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc lle mae Gwasanaethau unigol yn gweithio'n agos gyda'r bobl ifanc o fewn ardal i drosglwyddo ethos cadarnhaol y gwasanaeth tân. Maent yn gwneud hyn drwy gynorthwyo pobl ifanc i ddod yn fwy ymwybodol o'u rôl mewn cymdeithas a'u hysbrydoli i ddod yn ddinasyddion gwell.

2.2 Mae amcanion y Gymdeithas yn cynnwys cyfrannu at wella diogelwch cymunedol a sicrhau lleihad yn nifer y tanau ataliadwy, anafiadau cysylltiedig â thanau, galwadau ffug ac ymosodiadau ar ymladdwyr tân. Cyflawnir hyn drwy hyfforddi ac addysgu pobl ifanc. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â strategaethau tymor hir yr Awdurdod Tân fel a nodir yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg.

2.3 Gyda chefnogaeth yr Awdurdod Tân, sefydlwyd y Gymdeithas am y tro cyntaf yng Ngogledd Cymru yn 1997 pan sefydlwyd cangen yng Ngorsaf Dân Rhyl.

2.4 Ariannwyd gweithgareddau'r gangen ar y cychwyn drwy gyfrwng rhoddion cyhoeddus a'r gwaith codi arian a wnaed gan y gwirfoddolwyr oedd yn rhedeg y rhaglen. Talodd y gwaith codi arian am lifrai sylfaenol iawn.

2.5 Roedd yr offer a ddefnyddid gan y Gymdeithas yn heneiddio, ond yn offer defnyddiadwy oedd wedi dod i ddiwedd ei oes gyda'r Gwasanaeth. Canlyniad y broses hon oedd bod gan Unedau'r Gymdeithas lifrai ac offer gwahanol i'w gilydd.

2.6 Ym mis Medi 2002 cymeradwyodd yr Awdurdod Tân y gwariant oedd yn angenrheidiol i'r dyfodol ar gyfer sefydlu Unedau Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc, er mwyn darparu unffurfiaeth ar draws yr holl ganghennau ac i sicrhau eu bod yn cwrdd â safonau iechyd a diogelwch priodol ac effeithiol ac yn cynnal y safonau hynny.

3. **<u>Y SEFYLLFA BRESENNOL</u>**

3.1 Mae canghennau wedi eu sefydlu yn Y Waun, Prestatyn, Dolgellau, Amlwch, Conwy a Chaergybi.

3.2 Mae cynnydd gobeithiol a chadarnhaol yn cael ei wneud ar hyn o bryd o ran sefydlu seithfed cangen yn Abermaw.

3.3 Mesur o lwyddiant Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Ngogledd Cymru yw'r ffaith nad oes yr un o'r bobl ifanc wedi gadael y Gymdeithas yn gynamserol unwaith eu bod wedi eu derbyn fel aelod. Yn ogystal â hynny, mae nifer o gyn aelodau yn gweithio tuag at ennill cymwysterau addysgol i'w cynorthwyo i ddod yn ymladdwyr tân yng Ngogledd Cymru.

3.4 Mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar hyn o bryd gyda Chymdeithas Hyfforddi Ieuenctid y Gwasanaeth Tân i sefydlu Cymhwyster Canolradd BTEC mewn Sgiliau Ymladd Tân Sylfaenol. Gall aelodau weithio tuag at ennill y cymhwyster hwn yn ystod eu hamser gyda'r Gymdeithas.

3.5 Mae'r gyllideb a gymeradwyodd yr Awdurdod Tân ar gyfer y Gymdeithas yn 2005/6 yn £26,162. Defnyddir yr arian hwn i gynorthwyo canghennau i sefydlu eu hunain ac mae'n talu am y gost o brynu offer a lifrai i'r aelodau. Mae hyn yn galluogi i'r Unedau gychwyn ar eu gweithgareddau a dechrau recriwtio aelodau'r Gymdeithas o'u cymunedau lleol.

4. **<u>YSTYRIAETHAU I'R DYFODOL</u>**

4.1 Y pryder mwyaf i Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Ngogledd Cymru yw cynaladwyedd. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio gweithio'n gyson gyda'r bobl ifanc o fewn ein cymunedau gyda'r nod o'u hannog a'u cefnogi i ddod yn fwy ymwybodol o'u rôl mewn cymdeithas ac i'w hysbrydoli i ddod yn ddinasyddion gwell.

4.2 I lwyddo, mae'n rhaid i hyn fod yn fuddsoddiad tymor hir. Mae Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Ngogledd Cymru a'r Gwasanaeth yn cydnabod cefnogaeth barhaol yr Aelodau a'r Awdurdod Tân yn sicrhau cynaladwyedd y rhaglen hon.

5. **<u>ARGYMHELLION</u>**

5.1 Bod yr aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.